

GALWAD

TAITH I GYMDEITHAS GYNHWYSOL

**GWEITHGAREDD AM YR HYN SY'N EIN
GWNEUD YN PWY YDYM NI A SUT Y
GALLWN EDRYCH Y TU HWNT I'R HYN SY'N
WELADWY AR Y TU ALLAN**



Eco-Schools



**cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy**

Gwybodaeth gefndir

Yn stori GALWAD, mae 2052 yn fan lle mae ein cymdeithas yn gwbl gynhwysol. Nid yw pobl yn cael eu barnu yn ôl eu hethnigrwydd, eu galluoedd, eu hiaith, eu rhywedd neu sut maen nhw'n edrych. Mae ein cymdeithas yn radical gynhwysol.

Oni fyddai'n wych pe bai pob unigolyn yn cael ei ddathlu am ei gryfderau ei hun, ac mae bod yn wahanol yn 'normal'.

Dychmygwch gymdeithas sy'n addasu ac yn croesawu pob unigolyn yn lle bod unigolion yn teimlo bod angen iddynt addasu i ffitio i mewn i gymdeithas. Cymdeithas lle mae gwerthoedd yn chwarae rhan annatod yn y ffordd yr ydym yn edrych ar y rhai o'n cwmpas.

Nid ydym yn byw yn y lle hwnnw ar hyn o bryd. Er gwaethaf llawer o gynnydd dros y degawdau diwethaf, rydym yn dal i weld hiliaeth, rhywiaeth, a rhagfarn ar sail anabledd i gyd yn gyffredin mewn bywyd bob dydd. Weithiau mae hyn yn amlwg ac weithiau mae'n fwy cudd.

Yn 2022 gwelwyd Gemau'r Gymanwlad cyntaf lle bu'r athletwyr para-chwaraeon yn cystadlu ar yr un pryd â'r holl athletwyr eraill, yn hytrach na chael twrnamaint ar wahân yn ddiweddarach. Roedd hwn yn gam gwych ymlaen ar gyfer cynhwysiant yn y DU a chodwyd y cwestiwn pam nad yw bob amser wedi'i wneud fel hyn?



Mae ymchwil diweddar o UDA yn awgrymu bod 1 o bob 44 o blant yn Awtistig.

Mae awtistiaeth yn effeithio ar sut mae pobl yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'r byd a chymdeithas, ymhlith pethau eraill.



Ar gyfartaledd mae menywod yn y farchnad lafur yn dal i ennill 20 y cant yn llai na dynion yn fyd-eang, tra mewn llawer o wledydd nid oes ganddynt yr un hawliau â dynion.



Rhwng 1948 a 1991 cafodd pobl Ddu a Gwyn yn Ne Affrica eu gwahanu o dan apartheid. Roedd hyn yn cynnwys cyfleusterau cyhoeddus, digwyddiadau, tai a swyddi gyda phobl wyn yn cael eu ffafrio.

Yn 2014 gwnaeth y rhan fwyaf o'r DU briodas o'r un rhyw yn gyfreithlon (2020 yng Ngogledd Iwerddon), a daeth hyn ar ôl blynyddoedd lawer o ymgyrchu a phrotestiadau gan y mudiad LHDT (ar y pryd). Mae llawer o ffordd i fynd eto nes bod gennym ni gydraddoldeb, derbyniad a dealltwriaeth o ran rhywedd ond rydym yn symud i'r cyfeiriad cywir. Mae cael sgysiau agored am sut rydyn ni'n dewis uniaethu ein hunain a sut rydyn ni'n teimlo yn hollbwysig i greu'r gymdeithas gynhwysol honno. Mae'r adnoddau yn [Genderbread \(www.genderbread.org\)](http://www.genderbread.org) yn cynnig cefnogaeth wych gyda hyn.

Yn yr un modd, rydym wedi gweld llawer iawn o waith a chynnydd tuag at gydraddoldeb hiliol yng Nghymru a ledled y DU. Mewn rhai cymunedau gwelwn ethnigrwydd lluosog yn byw ac yn gweithio gyda'i gilydd heb unrhyw amheuaeth na rhagfarn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arferol eto, ac mae yna feysydd o hyd lle mae hiliaeth yn gyffredin a grwpiau o bobl yn dod o hyd i bŵer drwy dynnu sylw at bobl eraill efallai nad ydynt yn edrych yn debyg iddyn nhw.

Gan fod Cymru wedi gosod cynllun i ddod yn Genedl Noddfa, bydd angen inni fynd i'r afael â materion cynhwysiant a'u goresgyn pan fyddwn yn creu ein dyfodol cadarnhaol. Mae hyn yn golygu cofleidio'r gwerthoedd craidd hynny fel empathy, tosturi, heddwch a derbyniad a'u defnyddio i weld y person ar y tu mewn.

Gweithgaredd

Mae'r gweithgaredd hwn yn mynd i archwilio beth sy'n eich gwneud chi'r person ydych chi a bydd yn cynnwys creu map person gweledol neu glywedol i chi'ch hun.

1. Y cam cyntaf yw creu neu ddychmygu eich amlinelliad. Gellir cyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd:
 - Gallech dynnu llun o amgylch eich llaw neu dynnu amlinelliad o berson generig.
 - Gallech chi fynd allan gyda rhywfaint o sialc a thynnu llun o gwmpas eich gilydd i greu templed
 - Os nad yw lluniadu'n bosibl, ceisiwch ddelweddu siâp rydych chi'n mynd i'w lenwi â geiriau
2. Nawr meddyliwch am yr holl bethau sy'n eich gwneud chi'n pwy ydych chi ac ysgrifennwch neu tynnwch lun nhw o amgylch eich delwedd. Cymerwch ddigon o amser i wneud hyn a meddyliwch yn ofalus iawn am yr hyn i'w gynnwys. Meddyliwch am
 - Pa werthoedd sy'n bwysig i chi
 - Beth rydych chi'n mwynhau ei wneud yn eich amser hamdden
 - Sut byddech chi'n disgrifio'ch personoliaeth
 - Efallai beth sy'n eich poeni chi neu beth sy'n eich gwneud chi'n hapus

- Pwy sy'n arbennig neu'n bwysig yn eich bywyd
- Teimladau sydd y tu mewn i chi
- Eich hoff fwyd neu anifail neu artist

Gallwch chi addurno'ch delweddd ym mha bynnag ffordd sy'n addas i chi (ond ceisiwch beidio â'i gwneud yn lun ohonoch chi).

Os ydych yn gwneud hyn ar lafar, meddyliwch am yr holl eiriau yr hoffech eu cynnwys a chofnodwch nhw mewn cwmwl sain y gellir eu chwarae i eraill.

3. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, peidiwch ag ysgrifennu eich enw ar eich gwaith ond rhowch ef mewn man canolog yn eich dosbarth.
4. Nawr treuliwch amser yn archwilio'r holl fapiau pobl y mae eich cyddisgyblion wedi'u creu yn ofalus. Gwnewch nodyn o ble rydych chi'n dod o hyd i eiriau neu ddelwedddau ar waith pobl eraill sydd hefyd yn eich gwaith chi. Faint sydd gennych chi sydd yr un peth a faint sy'n unigryw i chi? Ydych chi'n gwybod pwy greodd pob map dim ond trwy edrych neu wrando arnyn nhw neu ydy hi'n llawer anoddach dweud?

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r gweithgaredd, mae gennych yr opsiwn i:

- Gwneud nodyn o'r map person sydd gennych chi fwyaf yn gyffredin ag ef ac yna darganfod pwy yw'r person hwnnw. Ai dyna pwy oeddech chi'n ei ddisgwyl?
- Trafodwch y geiriau neu'r delwedddau a godwyd amlaf
- Trafodwch a oedd unrhyw eiriau yr oedd myfyrwyr yn ei chael yn anodd eu rhannu neu a oedd yn peri syndod iddynt wrth ddarllen neu wrando ar waith ei gilydd.

Myfyrio

Meddyliwch am yr holl eiriau a delwedddau a ddefnyddiwyd i greu'r mapiau pobl. Faint ohonyn nhw sy'n weladwy o'r tu allan?

Rydyn ni i gyd yn euog o farnu yn ôl ymddangosiadau ar adegau a phenderfynu ar gymeriad rhywun cyn i ni ddod i'w hadnabod yn iawn.

Beth allech chi ei wneud yn y dyfodol i geisio sicrhau bod eich dosbarth yn lle diogel cynhwysol i bawb, lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus fel eu gwir hunan?

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dibenion

- Cyfranwyr mentrus, creadigol
- Unigolion iach, hyderus

MDPh a datganiadau Beth sy'n Bwysig

Iechyd a Llesiant

- Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau pobl eraill.

Y Dyniaethau

- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol, ac yn cael eu siapio gan weithredoedd a chredoau dynol.

Nodau Byd-eang



Nod 5: Cydraddoldeb Rhyw

Nod 16: Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf

GALWAD



CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB
33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767
keepwalestidy.cymru
info@keepwalestidy.cymru

